Y Gwningen a'r Tarw

Dyfalbarhad / Amynedd

"Mae'n rhaid i mi gael bwyd i'r teulu" meddai'r gwningen wrthi'i hun, " ond does gen i ddim cae i dyfu bwyd."
Roedd hi'n gwybod fod gan y tarw du ddigonedd i dir, aceri ar aceri o dir ffrwythlon. Ar ôl petruso llawer aeth y gwningen i gael sgwrs efo'r tarw.
"Dim problem o gwbl", meddai'r tarw. "Fe gei di blannu hynny wyt ti eisiau ond mi hoffwn i gael siâr o bopeth wyt ti wedi dyfu."
"Beth wyt ti eisiau felly?" gofynnodd y gwningen.
Gwenodd y tarw du. "Mi fuaswn i'n hoffi cael popeth sy'n tyfu uwchlaw'r pridd ac fe gei di bopeth sy'n tyfu yn y pridd," meddai.
Meddyliodd y gwningen am funud.
"Reit" meddai hi, "mi wnawn ni felly."
Ysgydodd bawen gyda'r tarw du. Yna ar ôl siarad efo'i theulu i ffwrdd a'r gwningen i blannu yn y cae. Pan oedd hi'n barod anfonodd air at y tarw.
Daeth y tarw i weld beth oedd wedi digwydd.
Meddai'r gwningen wrtho, "Dim ond i ni ddeall ein gilydd. Rwyt ti i gael popeth sy'n tyfu uwchlaw'r pridd a minnau i gael poepth sy'n tyfu yn y pridd."
"Iawn" meddai'r tarw du.
Dechreuodd y gwningen a'i theulu godi'r tatws o'r pridd.
Edrychodd y tarw yn gas. Roedd y gwningen i gael y tatws i gyd a'r tarw druan i gael y gwlydd nad oedd yn dda i ddim i neb.
Y flwyddyn ganlynol penderfynodd y tarw ei fod am feddwl yn galed iawn. Meddai wrth y gwningen, "Y tro yma fe gei di bopeth sy'n tyfu uwchlaw'r pridd a minnau bopeth sy'n tyfu yn y pridd."
"Iawn", meddai'r gwningen.
Ymhen ychydig fisoedd roedd y cnydau'n barod. Daeth y tarw

i'r cae i weld y cnydau.
"Mi rydw i wedi plannu letus y tro hwn," meddai'r gwningen.
Felly rhoddodd y gwreiddiau i'r tarw a'r letus i gyd iddi hithau a'i theulu. Roedd y tarw du wedi gwylltio'n lan.
"Reit" meddai, "dydi'r gwningen ddim yn mynd i gael fy nhwyllo y tro nesaf."
Pan ddaeth y tro nesaf fe ddywedodd wrth y gwningen.
"Y tro yma mi rydw i eisiau popeth sy'n tyfu yn y pridd a phopeth sy'n tyfu ar y pridd."
"Iawn" meddai'r gwningen. Meddyliodd yn galed, galed y tro hwn.
Roedd y tarw du yn berffaith sicr y byddai'n cael y cwbl y tro hwn.
Pan ddaeth yn adeg y cynhaeaf dyma'r tarw du yn dod yn wen o glust i glust. Fedra fo ddim credu ei lyagid.
"Wyt ti'n cofio," meddai'r gwningen, "fe wnaethon ni gytuno dy fod ti i gael popeth sy'n tyfu o dan y pridd a phopeth sy'n tyfu ar y pridd."
"Ie" meddai'r tarw yn falch, "wyt ti'n iawn gwningen fechan."
Felly meddai'r gwningen, "fe gei wreiddiau a'r dail sy'n tyfu ac fe gymerai i'r india corn sy'n tyfu ar ben y planhigion."
Ffyrnigodd y tarw du. Cododd ei ben i'r awyr a rhedeg nerth ei draed trwy'r caeau i'r cae pella i orwedd o dan y goeden dderw. Yno y buo fo am oriau. Doedd o ddim am adael i'r gwningen gael ffordd ei hun byth wedyn.

Ymhob dim, O Dduw, gwna fi'n blentyn gonest.
Amen.

- Sut greadur oedd y gwningen mewn difri?
- Fyddech chi'n dweud fod y tarw yn greadur diniwed?